



Garfield Weston  
FOUNDATION

# Canllawiau Ymgeisio





Garfield Weston  
FOUNDATION

Gwybodaeth am Sefydliad  
Garfield Weston

Gwybodaeth am y canllawiau  
hyn

Pwy gallwn eu cefnogi

Beth gallwn ei gyllido

Beth na allwn ei gyllido

Y broses ymgeisio

Awgrymiadau ar gyfer cais  
da!

Ysgrifennu eich cais – y  
cynnig

Sut i gyflwyno eich cais

Beth sy'n digwydd nesaf?

Starter Weston

Llywio yn rhwydd  
Ewch yn syth i'r adran y mae  
arnoch ei angen a chlicio ar y  
teitl yn y cynnwys uchod.

[www.garfieldweston.org](http://www.garfieldweston.org)

## Gwybodaeth am Sefydliad Garfield Weston

Mae Sefydliad Garfield Weston yn ymddiriedolaeth sydd wedi'i sefydlu gan deulu, sy'n rhoi grantiau ac mae wedi bod yn cefnogi elusennau ledled y DU ers dros 60 mlynedd. O grwpiau cymunedol bach i sefydliadau cenedlaethol mawr, nod yr Ymddiriedolwyr yw cefnogi sefydliadau sydd ag atebion effeithiol i helpu'r rhai mwyaf anghenus.

## Gwybodaeth am y canllawiau hyn

Rydym yn gwerthfawrogi'r amser a'r ymdrech mae'n ei gymryd i godi arian ac rydym yn bwriadu bod mor eglur â phosibl ynghylch beth mae'r Sefydliad yn ei gyllido neu ddim yn ei gyllido, sut i wneud cais am grant a faint mae'r broses yn ei gymryd fel arfer.

Bydd y canllawiau hyn yn cael eu rhannu i'r pedair adran canlynol.

### Pwy gallwn eu cefnogi

Mae'r Sefydliad yn cefnogi elusennau cofrestredig yn y DU sy'n gweithio yn y DU mewn meysydd sy'n ymwneud â Lles, Ieuenctid, Cymuned, Celfyddydau, Ffydd, yr Amgylchedd, Addysg, Iechyd ac Amgueddfeydd a Threftadaeth.

### Beth gallwn ei gyllido

Mae'r Sefydliad yn dyfarnu grantiau ar gyfer costau Cyfalaf, Prosiect a Refeniw. Os oes gennym hanes cyllido â chi, efallai bydd ein Hymddiriedolwyr yn ystyried cais dros nifer o flynyddoedd am hyd at dair blynedd, cyn belled ag y gallwch ddangos y bydd ymrwymiad tymor hwy yn ychwanegu gwerth i amcanion eich sefydliad.

## Beth na allwn ei gyllido

Mae rhai gweithgareddau a mathau o sefydliadau na allwn eu cyllido. Edrychwch ar dudalen 4 i gael rhestr o beth na allwn ei gyllido. Efallai yr hoffech ddefnyddio ein **cwis cymhwysedd** ar-lein.

## Y broses ymgeisio

I gadw pethau'n syml, mae gennym broses un cam sydd fel arfer yn cymryd tua phedwar mis o gyflwyno eich cais i gael penderfyniad. Bydd darllen ein canllawiau yn drylwyr a chynnwys yr holl wybodaeth rydym yn gofyn amdani yn sicrhau bod y broses mor gyflym â phosibl i chi. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â'n rhaglen Grantiau Rheolaidd sydd ar agor drwy gydol y flwyddyn ar gyfer grantiau o dan £100,000.

Os hoffech wneud cais am Grant Mawr (ee swm o £100,000 neu fwy), anfonwch grynodedb at ein Gweinyddydd Grantiau, Ciara Molloy ar [cmolloy@garfieldweston.org](mailto:cmolloy@garfieldweston.org) a byddwn yn gallu rhoi arweiniad arbennig i chi ynghylch a fyddai modd i chi fod yn gymwys i gael grant mawr a'r camau nesaf posibl. Sylwch, os ydych chi'n gwneud cais am £100,000 neu fwy, rydym yn disgwyl bod incwm blynyddol cyffredinol a/neu incwm blynyddol eich prosiect yn uwch na £1miliwn.



Garfield Weston  
FOUNDATION

Gwybodaeth am Sefydliad  
Garfield Weston

Gwybodaeth am y canllawiau  
hyn

Pwy gallwn eu cefnogi

Beth gallwn ei gyllido

Beth na allwn ei gyllido

Y broses ymgeisio

Awgrymiadau ar gyfer cais  
dal

Ysgrifennu eich cais – y  
cynnig

Sut i gyflwyno eich cais

Beth sy'n digwydd nesaf?

Starter Weston

www.garfieldweston.org

## Pwy gallwn eu cefnogi

Mae'r Sefydliad yn derbyn ceisiadau gan sefydliadau sy'n gweithio mewn meysydd sy'n ymwneud â **Lles, Ieuenctid, Cymuned, Celfyddydau, Ffydd, yr Amgylchedd, Addysg, Iechyd ac Amgueddfeydd a Threftadaeth.**

Gan fod yr Ymddiriedolwyr yn dal yn hyblyg ac yn dymuno cyllido'r prosiectau mwyaf effeithiol, nid oes gennym darged gwariant yn ôl categori. Peidiwch â phoeni os gallai eich elusen ddod o dan fwy nag un categori, ni fydd yn effeithio ar ba mor debygol fydd eich prosiect o gael ei gyllido. Nid oes rhaid i chi fod wedi gwneud cais am grant, neu fod wedi derbyn grant gan y Sefydliad yn y gorffennol, ac nid oes rhaid i chi wybod neb na chael eich 'gwahodd' i wneud cais – ar yr amod nad ydych yn derbyn grant gennym ar hyn o bryd, nac wedi gwneud cais am grant gennym ni yn y flwyddyn ddiwethaf, rydych yn gymwys i wneud cais os ydych yn un o'r canlynol:

- Elusen gofrestrdig yn y DU sy'n gweithio yn y DU;
- Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIOs);
- ysgol, prifysgol neu elusen addysgol gofrestrdig sydd naill ai wedi'i eithrio o dan ganllawiau'r Comisiwn Elusennau neu sy'n elusen gofrestrdig;
- sefydliad ffydd sydd naill ai wedi'i eithrio o dan ganllawiau'r Comisiwn Elusennau neu sy'n elusen gofrestrdig;
- cymdeithas dai; neu
- amgueddfeydd ac orielau.

## Beth gallwn ei gyllido

Pan fyddwch yn penderfynu beth i wneud cais amdano, rydym yn eich argymhell yn gryf eich bod yn gwneud cais am eich prif flaenoriaeth a'ch maes angen – gallai hyn fod yn un o'r tri maes: gwaith Cyfalaf, Refeniw (a elwir yn aml yn 'costau craidd anghyfyngedig) neu Brosiect.

Rydym yn argymhell bod gennych chi tua hanner eich cyllid cyn gwneud cais i'r Sefydliad. **Sylwch, mae'n annhebygol y bydd grant yn fwy na tua 10% o gyfanswm costau'r gyllideb.**

## Prosiectau cyfalaf

Gyda Chyfalaf rydym yn golygu briciau a mortar neu 'stwff' diriaethol ee prosiectau adeiladu, trwsio, offer ac ati.

Os ydych yn gwneud cais am grant Cyfalaf, bydd rhaid i chi gael caniatâd cynllunio wedi'i gadarnhau mewn lle ar adeg cyflwyno eich cais. Os ydych yn gwneud cais am grant Cyfalaf sy'n ymwneud ag adeilad neu dir, cadarnhewch y trefniadau perchnogaeth neu brydles sydd mewn lle (ee hyd y brydles a faint o flynyddoedd sydd ar ôl). Os ydych yn gwneud cais ar ran eglwys, yna bydd angen cymeradwyaeth gan y pwyllgor hefyd.

Dangoswch sut bydd y prosiect yn effeithio ar gostau parhaus eich sefydliad, er enghraifft os bydd adeilad mwy yn costio mwy i chi ei gynnal (mewn achos o'r fath, dywedwch wrthym ni sut byddwch yn cynnal hyn), neu os byddwch yn gallu arbed arian ar ôl hynny.

Mae gennym ddiddordeb mewn sut bydd eich prosiect yn effeithio ar yr amgylchedd – os yw eich cais yn cyfeirio at adeilad, dywedwch wrthym ni pa gamau mae eich sefydliad yn eu cymryd i wneud y prosiect yn gynaliadwy yn amgylcheddol, fel rhan o'r broses o'i adeiladu (os yw'n berthnasol) ac ar gyfer ei weithrediadau parhaus. Os ydych yn bwriadu cael ardystiad perthnasol fel BREEAM, yna rhowch wybod i ni pa sgôr rydych yn anelu i'w gael.

## Costau craidd anghyfyngedig/refeniw

Mae grantiau Refeniw yn cael eu rhoi at gostau rhedeg eich sefydliad, a chyfeirir atynt weithiau fel 'costau craidd'. Fel arfer, nid yw'r grantiau wedi'u cyfyngu a gallant gael eu defnyddio at gostau megis cyflogau cyffredinol (ond nid swydd benodol), rhent, costau rhaglen ac ati.

## Costau'r prosiect/gweithgareddau penodol

Os oes angen cymorth amoch ar gyfer prosiect neu weithgaredd penodol, yna gallwch amlinellu hyn yn eich cynnig – rhowch yr holl gostau sy'n ymwneud â chyflawni'r prosiect gan gynnwys costau staff a chanran resymol o orbenion os yw'n berthnasol. Bydd y Sefydliad yn rhoi cyfraniad cyffredinol at gyflogau drwy grantiau costau craidd/Prosiect neu Refeniw. Ond, sylwch nad ydym yn rhoi grantiau ar gyfer swydd neu aelod o staff penodol yn eich sefydliad – mae'n well gan yr Ymddiriedolwyr gefnogi cyflogau staff fel rhan o orbenion cyffredinol, nid swyddi unigol.



Garfield Weston  
FOUNDATION

Gwybodaeth am Sefydliad  
Garfield Weston

Gwybodaeth am y canllawiau  
hyn

Pwy gallwn eu cefnogi

Beth gallwn ei gyllido

Beth na allwn ei gyllido

Y broses ymgeisio

Awgrymiadau ar gyfer cais  
da!

Ysgrifennu eich cais – y  
cynnig

Sut i gyflwyno eich cais

Beth sy'n digwydd nesaf?

Starter Weston

[www.garfieldweston.org](http://www.garfieldweston.org)

## Beth na allwn ei gyllido

Nid ydym yn gallu cefnogi:

- unigolion;
- Cwmnïau Buddiannau Cymunedol (CICs);
- mentrau cymdeithasol sydd heb gofrestru â Chomisiwn Elusennau'r DU;
- cymdeithasau chwaraeon sydd heb gofrestru â Chomisiwn Elusennau'r DU;
- gwaith sydd ddim yn cael budd uniongyrchol yn y DU hyd yn oed os yw'r sefydliad wedi cofrestru â'r Comisiwn Elusennau;
- elusennau lles anifeiliaid;
- elusennau sy'n gwario'r rhan fwyaf o'u hincwm y tu allan i'r DU; a
- awdurdodau a chynghorau lleol.

Mae'n annhebygol y bydd sefydliadau sydd â chronfeydd anghyfyngedig (asedau cyfredol net a buddsoddiadau) sy'n cynnwys mwy na gwariant 12 mis yn derbyn grant oni bai eu bod nhw'n gallu cyflwyno achos eithriadol o gryf yn dangos eu bod mewn angen ariannol.

Mae rhai gweithgareddau nad ydym yn eu cyllido:

- digwyddiadau unigryw neu flynyddol megis 'galas' neu wyliau, hyd yn oed os ydynt at ddibenion codi arian;
- nawdd;
- cyflogau unigolion – mae'n well gan ein Hymddiriedolwyr gefnogi cyflogau staff fel rhan o orbenion cyffredinol drwy grantiau costau craidd/Prosiect neu Refeniw ac nid ydynt yn rhoi grantiau ar gyfer swydd neu aelod o staff penodol;
- astudiaethau dichonolrwydd;
- gweithgaredd sy'n digwydd dramor, gan gynnwys teithiau tramor;
- costau sefydlu, sefydliadau sydd heb hanes blaenorol o ddarparu gwasanaeth, neu sefydliadau sydd heb lunio cyfrifon eisoes;
- ymgyrchu, lobïo a gweithgaredd codi ymwybyddiaeth; a
- apeliadau gwaddol.



Garfield Weston  
FOUNDATION

Gwybodaeth am Sefydliad  
Garfield Weston

Gwybodaeth am y canllawiau  
hyn

Pwy gallwn eu cefnogi

Beth gallwn ei gyllido

Beth na allwn ei gyllido

Y broses ymgeisio

Awgrymiadau ar gyfer cais  
da!

Ysgrifennu eich cais – y  
cynnig

Sut i gyflwyno eich cais

Beth sy'n digwydd nesaf?

Starter Weston

[www.garfieldweston.org](http://www.garfieldweston.org)

## Y broses ymgeisio

Mae'r adran yma'n disgrifio popeth sydd angen i ni ei weld mewn cais am gyllid, sut i gyflwyno eich cais a beth fydd yn digwydd nesaf. Cofiwch ddarllen yr adran yma'n drylwyr cyn cyflwyno cais.

### Awgrymiadau ar gyfer cais da!

- Cofiwch ddweud eich stori mewn ffordd syml gan roi'r cyd-destun cyfan, hyd yn oed os ydych wedi gwneud cais o'r blaen i ni. Gallai pethau fod wedi newid ers y tro diwethaf, felly cofiwch egluro popeth sydd angen i ni ei wybod.
- Ceisiwch osgoi jargon neu acronymau.
- Gofynnwch i rywun o'r tu allan i'ch mudiad ddarllen eich cynnig – ydy o'n gwneud synnwyr? Fedran nhw gofio'r prif bwyntiau?
- Dywedwch wrthym faint o bobl yr ydych yn eu cyrraedd, h.y. faint o fuddiolwyr yr ydych yn gweithio gyda nhw.
- Cofiwch sicrhau bod eich cyllidebau a'ch cyfansymiau'n gywir, a'u bod yn adio'n iawn, gan ddangos eich diffyg ariannol presennol yn glir.
- Cofiwch gynnwys cynllun cyllido clir – ni allwn fod eich unig gorff cyllido, felly dywedwch faint o gyllid yr ydych wedi'i godi hyd yma, o ble ac i bwy arall y byddwch yn gofyn am y gweddill (neu'r diffyg).
- Cadwch bethau'n syml!

## Ysgrifennu eich cais – y cynnig

Nid oes gennym ffurflen gais 'gaeth' – rydym am i chi fod yn chi eich hun er mwyn eich deall yn well. Cofiwch fod mor gryno â phosib a chadw at 10 ochr A4 – cofiwch gynnwys yr HOLL wybodaeth y gofynnwn amdani yn yr un ddogfen hon. Os bydd gennym gwestiynau eraill, byddwn yn gofyn. Cyflwynwch eich cais mewn fformat Word neu PDF gan gynnwys y wybodaeth ganlynol:

### Crynodeb gweithredol

Ar ddechrau eich cynnig dylech grynhoi gwaith eich mudiad, pa angen y mae'n ei gwrdd, ble'r ydych yn gweithio, y gwahaniaeth y mae'n ei wneud (effaith), eich perfformiad hyd yma a beth yr ydych yn gofyn i'r Sefydliad amdano. Mae hyn yn rhoi cyd-destun hanfodol y mae llawer o fudiadau'n anghofio ei roi! Cofiwch 5 peth – pwy, beth, pam, ble a phryd.

### Y prif gynnis

Yr angen a'r gwasanaeth

- Pa angen y mae eich elusen yn ei ateb? Pam ei fod yn bwysig?
- Sut y mae eich gwaith yn ateb yr angen hwn, h.y. beth ydych chi'n ei wneud neu pa wasanaeth ydych chi'n ei ddarparu?

Effaith

- Pa wahaniaeth y mae gwaith eich mudiad yn ei wneud?
- Beth yw'r allbwn? Er enghraifft, pwy sy'n elwa o'ch gwaith a sut? Tua faint o fuddiolwyr oedd gennych y llynedd ac am y flwyddyn i ddod?
- Sut ydych chi'n mesur llwyddiant? Beth oedd canlyniad ac effaith eich gwaith y llynedd?



Garfield Weston  
FOUNDATION

Gwybodaeth am Sefydliad  
Garfield Weston

Gwybodaeth am y canllawiau  
hyn

Pwy gallwn eu cefnogi

Beth gallwn ei gyllido

Beth na allwn ei gyllido

Y broses ymgeisio

Awgrymiadau ar gyfer cais  
da!

Ysgrifennu eich cais – y  
cynnig

Sut i gyflwyno eich cais

Beth sy'n digwydd nesaf?

Starter Weston

[www.garfieldweston.org](http://www.garfieldweston.org)

## Astudiaethau achos a lluniau

Gall helpu i roi cig ar asgwrn eich cais drwy gynnwys un neu ddwy astudiaeth achos a/neu ddyfyniadau gan bobl sydd wedi elwa o'ch gwaith. Cofiwch gynnwys lluniau addas os ydynt yn helpu i esbonio eich prosiect, gwaith eich elusen a'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud. Er ein bod yn disgwyl gweld cynlluniau clir, nid oes raid i chi fod yn rhy glinigol – os yw gwaith eich elusen yn cael effaith emosiynol neu'n rhoi llawenydd i bobl, cofiwch sôn am hynny hefyd. Gall y cydbwysedd rhwng y 'pen' a'r 'galon' wneud cynnig yn un cryf.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Gwyddom fod pobl abl ac arweinwyr ysbrydoledig yn gwneud y gwahaniaeth i gyd felly cofiwch egluro digon am y bobl sy'n arwain a darparu eich gwaith fel bod gan ein hymddiriedolwyr hyder yn eich mudiad a'ch cynlluniau. Dylech gynnwys paragraff am eich Prif Weithredwr, yr uwch-dîm a'ch ymddiriedolwyr a'u profiad o ddarparu eich gwaith.

## Gweithio mewn partneriaeth

Cofiwch ddweud am unrhyw bartneriaethau neu gydweithredu â mudiadau eraill. Er bod ein hymddiriedolwyr yn wylidwrus o gefnogi mudiadau sy'n dyblygu neu'n gorgyffwrdd â gwaith mudiadau eraill, maen nhw'n falch o weld mudiadau'n gweithio ar y cyd i ddarparu gwasanaeth gwell, gwneud pethau'n fwy effeithlon a/neu i wella canlyniadau.

## Cynllun cyllideb a chodi arian

Bydd cynllun clir ar gyfer cyllideb a chodi arian yn cyflymu ein proses benderfynu oherwydd ni fydd angen i ni gysylltu â chi i esbonio pethau. Mae'r adran yma'n eithriadol bwysig oherwydd mae angen i ni ddeall:

- bod gennych gynllun cadarn i gyllido eich gwaith – o ran pwy sydd eisoes yn eich cefnogi'n ariannol, a'r rhestr o ffynonellau posib eraill yr ydych yn ymgeisio am gyllid iddynt;
- o ble daw eich cyllid yn gyffredinol;
- pa mor ddibynnol ydych chi ar ffynonellau cyllid penodol; a
- sut y mae eich cymuned leol neu fuddiolwyr yn cefnogi eich gwaith.

Mae ein hymddiriedolwyr yn chwilio am sylfaen gyllid amrywiol i sicrhau bod mudiadau'n ariannol gynaliadwy. Os oes rheswm pam fod eich cyllid yn dod o nifer fach o ffynonellau ar hyn o bryd, cofiwch egluro pam a beth y byddwch yn ei wneud i newid hyn yn y dyfodol.

## Sut i amlinellu eich cynllun cyllideb a chodi arian

Yn ein profiad ni, mae elusennau'n aml yn ei chael yn anodd crynhoi eu cynllun cyllideb a chodi arian. Dros y dudalen rhoddwn enghreifftiau i chi.



Garfield Weston  
FOUNDATION

Gwybodaeth am Sefydliad  
Garfield Weston

Gwybodaeth am y canllawiau  
hyn

Pwy gallwn eu cefnogi

Beth gallwn ei gyllido

Beth na allwn ei gyllido

Y broses ymgeisio

Awgrymiadau ar gyfer cais  
da!

Ysgrifennu eich cais – y  
cynnig

Sut i gyflwyno eich cais

Beth sy'n digwydd nesaf?

Starter Weston

[www.garfieldweston.org](http://www.garfieldweston.org)

## Gwariant a gynlluniwyd/cyllideb

Rhowch ddadansoddiad o faint y mae eich gwaith yn ei gostio am y flwyddyn/blynyddoedd ariannol sy'n berthnasol i'ch cais. Gallech ddefnyddio'r un penawdau ag yn eich cyfrifon blynyddol, e.e:

EEitem wariant	Swm	Nodiadau
Cyflogau	£325,000	3 staff llawn amser/4 rhan amser
Hyfforddiant	£25,000	
Costau rhaglenni	£80,000	Gan gynnwys deunyddiau
Costau swyddfa	£30,000	
Gwaith trwsio / cynnal a chadw	£5,000	
Rhent	£25,000	
Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol	£5,000	
Costau llywodraethu	£5,000	
<b>CYFANSWM</b>	<b>£500,000</b>	

## Cynllun incwm/codi arian

Mae angen i ni weld incwm disgwylid eich mudiad am y flwyddyn/blynyddoedd ariannol sy'n berthnasol i'ch cais. Dylai'r tabl hwn ddangos i ni faint o gyllid sydd wedi'i sicrhau hyd yma, o ble, faint sydd ar ôl i'w godi (h.y. y diffyg) a pha ffynonellau cyllid yr ydych chi'n disgwyl iddynt lenwi'r bwlch hwn.

Ffynhonnell incwm	Incwm targed/ disgwylid	Incwm a gadarnhawyd hyd yma	Nodiadau
Cyllid statudol /contractau	£200,000	£100,000	Cyngor lleol heb gadarnhau parhad eu cyllid eto
Incwm arall a enillwyd	£20,000	£5,000	Gwerthiannau o fenter gymdeithasol sy'n parhau
Ymddiriedolaethau a Sefydliadau	£150,000	£75,000	Wedi sicrhau £50,000 gan un ymddiriedolaeth genedlaethol, 5 addewid o £5,000 gan ymddiriedolaethau lleol penodol. Ceisiadau ar y gweill gyda 6 Sefydliad arall – rhowch eu henwau.
Rhoddion corfforaethol	£20,000	£10,000	Cwmnïau a dargedwyd yn cynnwys A, B ac C
Rhoddion gan unigolion	£15,000	£5,000	Ymddiriedolwyr i gysylltu â ffrindiau a chydweithwyr
Cymdeithas/digwyddiadau	£20,000	£10,000	Cynlluniau i gynnal arwerthiannau cist car a digwyddiadau eraill
Cyfraniad o arian/cronfeyd d wrth gefn	£75,000	£75,000	Os wedi'i gynllunio
<b>Is-gyfanswm yr incwm targed /disgwylid</b>	<b>£500,000</b>		
<b>Is-gyfanswm yr incwm a gadarnhawyd</b>		<b>£280,000</b>	
<b>Diffyg</b>		<b>£220,000</b>	



Garfield Weston  
FOUNDATION

Gwybodaeth am Sefydliad  
Garfield Weston

Gwybodaeth am y canllawiau  
hyn

Pwy gallwn eu cefnogi

Beth gallwn ei gyllido

Beth na allwn ei gyllido

Y broses ymgeisio

Awgrymiadau ar gyfer cais  
da!

Ysgrifennu eich cais – y  
cynnig

Sut i gyflwyno eich cais

Beth sy'n digwydd nesaf?

Starter Weston

[www.garfieldweston.org](http://www.garfieldweston.org)

## Ceisiadau prosiect-benodol

Os ydych yn ymgeisio am brosiect cyfalaf neu weithgaredd penodol, bydd angen i chi gyflwyno'r cynlluniau prosiect-benodol ychwanegol canlynol:

- 1 cyllideb/costau eich prosiect;
- 2 cynllun codi arian ar gyfer eich prosiect gyda dwy golofn – un am symiau a sicrhawyd yn barod a'r llall am symiau disgwylidig o bob ffynhonnell gyllido (e.e. unigolion, cyrff corfforaethol, ymddiriedolaethau etc).

## Ceisiadau aml-flwyddyn

Os yw eich cais yn un am gyllid dros nifer o flynyddoedd, cofiwch gynnwys cyllideb aml-flwyddyn gyfatebol. Mae ein hymddiriedolwyr yn fodlon ystyried cais aml-flwyddyn am hyd at dair blynedd ac yn tueddu i roi'r grantiau hyn pan fydd gan fudiad hanes cyllido gyda'r Sefydliad.

## Cynllun B

Gobeithio y bydd eich cynlluniau codi arian yn llwyddo, ond gwyddom fod codi arian yn waith caled, yn enwedig yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Beth fydd yn digwydd os na allwch godi costau llawn y prosiect? Fydd y gwaith yn mynd yn ei flaen, ond ar raddfa lai? A fydd angen i chi wneud y gwaith fesul tipyn? Os oes gennych fenthyciad, beth yw'r telerau a'r cynllun i'w ad-dalu? A oes gennych arian/cronfeydd wrth gefn y gallwch eu defnyddio? Cofiwch sicrhau y gall ein hymddiriedolwyr weld eich bod wedi meddwl am opsiynau eraill.

## Cyfrifon

Mae angen i ni ddeall bod gan eich mudiad hanes perfformiad o ran gwasanaeth a darparu; felly bydd angen i chi fod â chyfrifon am un flwyddyn o leiaf i fod yn gymwys i ymgeisio.

Os oes angen i'ch mudiad gynhyrchu cyfrifon archwiliedig, neu gyfrifon a archwiliwyd yn annibynnol, bydd angen i chi gyflwyno copi ohonynt gyda'ch cais. Os nad oes angen i'ch mudiad gynhyrchu cyfrifon archwiliedig neu a archwiliwyd yn annibynnol, dylech gyflwyno eich cyfrifon rheoli am y llynedd.

Cofiwch ddweud os oes unrhyw beth anghyffredin yn eich cyfrifon sydd angen ei egluro – e.e. unrhyw eitemau eithriadol a allai fod wedi sgiwio eich cyfrifon (fel arian annisgwyl untro'n unig, cost untro arall annisgwyl neu gostau uno).

## Manylion banc

Os bydd eich cais yn llwyddo, bydd eich grant yn cael ei dalu'n electronig i gyfrif banc eich mudiad. Felly bydd angen eich manylion banc arnom i brosesu eich cais.

Gofynnir i chi ddarparu'r manylion canlynol:

- enw'r cyfrif (nid enw'r banc);
- rhif y cyfrif;
- cod didoli; a
- rhif rhol y gymdeithas adeiladu, lle bo'n berthnasol.

Bydd angen i ni weld copi o ddatganiad banc diweddaraf eich mudiad (h.y. o fewn y tri mis diwethaf). Dylai'r datganiad banc ddangos dyddiad, enw'r cyfrif, y cod didoli a rhif y cyfrif yn glir.

Bydd y ffurflen gais yn cynnwys adran yn gofyn i chi ardystio bod y manylion banc yn gywir gan roi enw'r person sydd wedi eich awdurdodi i roi'r manylion hyn, beth yw eu swydd yn y mudiad a'r dyddiad yr awdurdodwyd hynny. Cofiwch y dylai'r person sy'n awdurdodi fod ar lefel Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Ariannol, Trysorydd neu debyg.





Garfield Weston  
FOUNDATION

Gwybodaeth am Sefydliad  
Garfield Weston

Gwybodaeth am y canllawiau  
hyn

Pwy gallwn eu cefnogi

Beth gallwn ei gyllido

Beth na allwn ei gyllido

Y broses ymgeisio

Awgrymiadau ar gyfer cais  
da!

Ysgrifennu eich cais – y  
cynnig

Sut i gyflwyno eich cais

Beth sy'n digwydd nesaf?

Starter Weston

[www.garfieldweston.org](http://www.garfieldweston.org)

## Sut i gyflwyno eich cais

Nawr eich bod wedi ysgrifennu eich cais, y ffordd hawsaf i'w gyflwyno yw ar-lein drwy ein **gwefan**.

Os na allwch wneud hyn, bydd ein hymddiriedolwyr yn derbyn cais drwy'r post. Bydd angen i chi lenwi ffurflen gais bost dwy dudalen, i'w hanfon gyda'ch cynnig, cyfrifon a'ch datganiad banc.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

- Mae ein rhaglen Grantiau Rheolaidd (h.y. ceisiadau am gyllid o dan £100,000) ar agor i geisiadau drwy'r flwyddyn ac mae ein hymddiriedolwyr yn eu hadolygu'n ofalus yn rheolaidd.
- Oherwydd bod ein hymddiriedolwyr yn adolygu ceisiadau'n rheolaidd, nid oes unrhyw derfynau amser i chi eu cwrdd – gallwch gyflwyno cais ar unrhyw adeg.
- Rydym yn adolygu ceisiadau yn nhrefn eu derbyn, i fod yn deg i bawb.
- Byddwn yn cydnabod derbyn pob cais. Os byddwch yn ymgeisio ar-lein, byddwch yn derbyn e-bost awtomatig yn cydnabod eich cais. Os byddwch yn ymgeisio drwy'r post, byddwch yn derbyn cydnabyddiaeth o fewn 4 wythnos.

Ar ôl i ni gydnabod derbyn eich cais, efallai na chlywch chi gennym am hyd at bedwar mis – peidiwch â phoeni, mae hyn yn golygu bod gennym yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom. **Nid** oes angen i chi gysylltu â'r Sefydliad ar ôl i ni gydnabod eich cais – os teimlwn fod unrhyw beth ar goll o'ch cais, byddwn yn cysylltu i ofyn cwestiynau penodol.

Felly hefyd, os bydd angen i ni gyfarfod, bydd aelod o'n tîm Grantiau'n cysylltu â chi i drefnu ymweliad safle neu gyfarfod, gan roi gymaint o rybudd â phosib.

P'un ai fydd eich cais yn llwyddo neu beidio, cofiwch na allwn dderbyn cais arall gennych am 12 mis o leiaf ers dyddiad ein llythyr yn eich hysbysu o ganlyniad eich cais diweddaraf.

Diolch i chi am eich diddordeb yn Sefydliad Garfield Weston. Pob lwc i chi gyda chodi arian a gwaith eich elusen. Os oes gennych gwestiynau pellach, darllenwch ein Cwestiynau Cyffredin.



Garfield Weston  
FOUNDATION

Gwybodaeth am Sefydliad  
Garfield Weston

Gwybodaeth am y canllawiau  
hyn

Pwy gallwn eu cefnogi

Beth gallwn ei gyllido

Beth na allwn ei gyllido

Y broses ymgeisio

Awgrymiadau ar gyfer cais  
da!

Ysgrifennu eich cais – y  
cynnig

Sut i gyflwyno eich cais

Beth sy'n digwydd nesaf?

Siarter Weston

[www.garfieldweston.org](http://www.garfieldweston.org)

## Siarter Weston

Rydym yn deall nad yw codi arian yn hawdd – yn wir, mae gan staff y Sefydliad a llawer o'r ymddiriedolwyr hefyd brofiad o godi arian dros elusen – dyna pam yr ydym wedi sefydlu "Siarter Weston" sy'n egluro ein hymrwymiad i chi.

Mae ein ymddiriedolwyr yn falch o'r gofal a gymerwn yn ystyried ceisiadau ac roeddem yn meddwl y byddech efallai eisiau gwybod mwy am ein hegwyddorion fel y gallwch fod yn ffyddiog, beth bynnag fydd canlyniad eich cais, ein bod yn trin eich gwybodaeth yn hynod ofalus a thrylwyr.

Diolch i chi am gymryd yr amser i siarad gyda ni am eich gwaith.

### Ein hymrwymiad i chi

- 1 Mae pob cais a dderbyniwn yn cael ei gydnabod fel eich bod yn gwybod ei fod wedi cyrraedd yn ddiogel.
- 2 Mae pob cais a ystyriwn yn derbyn hysbysiad o'r canlyniad.
- 3 Mae pob cais cymwys yn cael ei ystyried gan un o ymddiriedolwyr y Sefydliad o leiaf.
- 4 Bydd eich cais yn derbyn sylw gofalus ond cofiwch nad yw'n bosib i ni warantu y bydd cyllid ar gael – gwyddom eich bod yn deall bod yn rhaid i'r ymddiriedolwyr weithiau wrthod prosiectau da oherwydd nad yw'n bosib cefnogi bob dim.
- 5 Bydd yr ymddiriedolwyr yn nodi unrhyw swm y byddwch yn gofyn amdano, ond nid ydynt yn gweithio ar sail "popeth neu ddim byd" felly gallent gynnig swm gwahanol na'r swm yr ydych wedi gofyn amdano.
- 6 Rydym yn parchu eich amser a'ch adnoddau – felly byddwn ond yn gofyn am wybodaeth ychwanegol os credwn ei bod yn rhan bwysig o'ch cynnig, neu os oes angen esboniad pellach o rywbeth y teimlwn sy'n berthnasol i ddealltwriaeth yr ymddiriedolwyr o'ch prosiect neu fudiad – byddwn yn sicrhau

bod gennym yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom fel y gallwch fod yn ffyddiog eich bod wedi gwneud eich gorau glas gyda'ch cais.

- 7 Mae gwariant y Sefydliad yn cael ei reoli'n ofalus i sicrhau, pa bynnag gyfarfod neu amser o'r flwyddyn y byddwn yn trafod eich prosiect, y bydd ganddo'r un cyfle ag ar unrhyw adeg arall o'r flwyddyn.
- 8 Oni bai ein bod yn cysylltu â chi i ofyn am gyfarfod neu ymweliad, ni fydd angen i chi fynychu cyfarfod Ymddiriedolwyr eich hun oherwydd mae unrhyw gyfarfod a sgwrs sydd angen i ni eu cael, i ddeall eich cynnig yn llawn, yn digwydd ymlaen llaw.
- 9 Wrth wneud penderfyniad i roi cyllid neu beidio, fel arfer mae'r taliad yn cael ei wneud yn syth i helpu eich elusen gyda'r llif arian a'r gwaith cynllunio. Os gwnaed addewid o gyllid, byddwn yn rhoi hyd at ddwy flynedd i chi sicrhau'r cyllid ychwanegol angenrheidiol.
- 10 Ceisiwn gadw ein canllawiau ar adrodd mor glir a syml â phosib i sicrhau eich bod yn ein diweddarau ar eich gwaith ond gan leihau unrhyw faich gweinyddol i'ch elusen gymaint â phosib.